CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 1 MEDI 2009

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng H Roberts

Cynghorwyr
H Edwards, R Anderson, O T Owen, I C Thomas, A Kirk, R Bonner Pritchard
M Thomas, W Lloyd Davies, A Roberts

Gweddïau

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan Caplan Y Maer Parch G Richards

1. Ymddiheuriadau

Cyng M Davies (gwyliau), Cyng G Parry (Gwyliau), Cyng M Powell – Jones (salwch), Cyng W R Owen (salwch), Cyng A Bohana (gweithio) , Cyng A Y Williams (salwch)

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Digwyddiadau Gorffennaf/Awst

Sul 12 Gorffennaf:	Sul y Maer, Beaumaris
Mawrth 14 Gorff:	Garddwest Palas Buckingham
Gwener 17 Gorff:	Cyfarfod Ymwelwyr Landerne
Sadwrn 18 Gorff:	Cyfweliad BBC Post Cyntaf
Sadwrn 18 Gorff:	Diwrnod y Lluoedd Arfog, Gwasanaeth Drumhe ad
Sadwrn 18 Gorff:	Caniad y Machlud
Sul 19 Gorff:	Agoriad Swyddogol y Maes
Sul 19 Gorff:	Agor Arddangosfa BOCS, Oriel Dafydd Hardy
Sul 19 Gorff:	Cinio Swyddogol y Gyfeillio
Mercher 22 Gorff:	Ras y Tren
Iau 23 Gorff:	Gwobrwyo Rygbi Ienctid
Gwener 24 Gorff:	Bwrdd Amgueddfa RWF, Wrecsam
Gwener 24 Gorff:	Dathlu 40 Clwb Peldroed Cae Glyn
Awst	
Sadwrn 1 Awst:	Bwffe Awdurdodau Lleol, Eisteddfod Genedlaethol
Llun 3 Awst:	Lansio apêl Brunswick i godi arian ar gyfer y tren
Mercher 5 Awst:	Cyfarfod Cymunedau Cyn aladwy yn yr Eisteddfod
Sul 9 Awst:	Gwyl yr Afon, Conwy
Mawrth 11 Awst:	Ymweld a'r Ffair ar y Maes
Gwener 14 Awst:	Gwobrwyo Cystadleuaeth Golff Trefi Caerog
Sul 16 Awst:	Sul y Maer Dinbych
Iau 20 Awst:	Cyfarfod ynglyn a'r Gemau Gymanwlad

Mawrth 25 Awst: Cyfarfod gyda'r Heddlu ym mynwent Llanbeblig
Mercher 26 Awst: Seremoni Gwobrwyo Wardeiniaid Ifanc, Cyngor Gwynedd
Sul 30 Awst: Adloniant ar y Maes

Hefyd diolch i'r Dirpwy Faer a'r Dirpwy Faeres am fynd i Sioe Ddinbych ar Sadrwn 29 Awst

3. Datgan Buddiant Personol

H Edwards – Cynllunio
I C Thomas – Cynllunio a Trwyddedu

4. **Eitemau Brys**

- Cynhadledd safonau Cymru - Caerdydd

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol: -

i. Cyngor, 7 Gorffennaf 2009 - **Derbyn fel rhai cywir**
ii. Pwyllgor Cyffredinol 21 Gorffennaf 2009 – **derbyn fel rhai cywir**
iii. Panel Cyllid 1 Medi - **adrodd o'r Panel Cyllid bod angen cyfarfod arbennig o'r Cyngor (er mwyn i bob Cynghorydd gael pleidlais) cyn diwedd y mis gyda hawl i weithredu**

Penderfynwyd
Derbyn a chaniatáu hawl i weithredu i gyfarfod arbennig o'r Cyngor i drafod goleuadau Nadolig

6. **Cynllunio**

I ystyried y ceisiadau cynllunio a ceisiadau trwyddedu

Penderfynwyd
Anfon rhestr o argymhellion i'r awdurdod priodol

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu

Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

9. Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru

Penderfynwyd

Unrhyw un sydd yn dymuno ateb – i wneud yn uniongyrchol

10. Etifeddiaeth y Cymru

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

11. Cymdeithas Tai Eryri

Adroddiad Blynyddol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

12. Cyngor Gwynedd

Agor y Cist

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

13. **Cyngor at bopeth**

Llythyr Diolch

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

14. Llyfryn Rhanbarth Llydaw

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

15. Copi lythyr parthed Lon Doc

Penderfynwyd

Ysgrifennu llythyr i'r Cynulliad yn nodi siom yn y ffordd werthwyd y tir ga n Cyngor Gwynedd a gofyn i gynrychiolydd o'r cynulliad ddod i ymweld a'r safle ynghyd a Chynghorwyr Tref er mwyn iddynt weld y darlun llawn

(cyrhaeddodd Cyng A Kirk am 6.25 yn g anol yr eitem yma)

16. Cynhadledd Partneriaeth Tai Gwynedd 11 Medi

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

17. Unllais

Adroddiadau gan Cyng. A. Bohana ar Siarter Morgannwg

Penderfynwyd

Symud i'r Pwyllgor nesaf gan fod Cyng A Bohana ddim ar gael

18. Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ymgynghoriad ar Gorchymyn Cynhwysedd Deddfwriaeth

Penderfynwyd

Symud yr eitem i'r Pwyllgor nesaf gyda hawl i weithredu

19. Llythyr gan R. Hughes

Parthed: Sbwriel

Penderfynwyd

Diolch am y llythyr ac anfon l lythyr i Cyngor Gwynedd gan ofyn iddyn t edrych i'r posibiliadau o hel ysbwriel busnesi gyda'r hwyr

20. Cyngor Gwynedd

Adolygu Strategaeth Datblygu lleol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

21. Panel Dyfarnu Cymru

Adroddiad Blynyddol

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

22. Llythyr gan Simon Cole parthed blodau

Penderfynwyd

Diolch a danfon y llythyr ymlaen i'r adran perthnasol yn Cyngor Gwynedd gan ategu yr hyn sydd yn cael ei nodi - gwaith ardderchog

23. Unllais

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

24. Cyngor Gwynedd

Ymgynghoriad ar Hawliau Tramwy`

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth ,ond i'r gweithgor ystyr ied ei gynnwys

25. CADW

i. Proffil Cymunedol

Segontiwn
Castell - **falch nodi bod ein argymhellion ni wedi cael sylw**

ii. Glannau Caernarfon

- deall nodweddion trefol

Penderfynwyd

i. derbyn er gwybodaeth
ii. i'r pwyllgor gyda hawl i weithredu

26. Royal Haskoning Gorllewin Cymru

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

27. Grwp Marchnata

e-bost Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd

Cytuno am gyfnod o chwe mis neu tan mae'r grwp marchnata yn weithredol (pryn bynnag ydi'r lleiaf).Ond gyda'r amod bod canl lawiau pendant yn cael eu rhoi gan Cyngor Gwynedd ar bapur i nodi pa fath o ddefnydd a chaniateir ynddo (y grwp marchnata fydd yn penderfynu wedyn)

28. **CCTC**

i. Agenda symposiwm
ii. Cylchlythyr

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

29. Llythyr gan y Gogs

Penderfynwyd

Cyng R Anderson i gynrychioli'r Cyngor gan nodi bod cyfarfodydd y Cyngor yn disgyn ar nos Fawrth a bod disgwyl iddo fynychu cyfarfod yna yn gyntaf. Y Gogs i gysylltu yn uniongyrchol a Band Llanrug

30. Cadw Cymru'n Daclus

Angen lleoliad ar gyfer digwyddiad + llythyr Cyngor Gwynedd

Penderfynwyd

Cytuno i wneud rhywbeth – y clerc i ofyn am becyn
Trefnu 4 lleioliad (un ym bob ward) yn y pwyllgor nesaf

31. Cyngor Gwynedd

Cyfarfod a'r Cynghorau Tref a Chymuned

Penderfynwyd

Maer, Dirprwy Faer a Cyng A Roberts i fynychu ar ran y Cyngor

32. Trwyddedau

Kasbar, 4 Eastgate Street
Penderfynwyd
Caniatáu

33. Unllais

Agenda 21 Medi + cofnodion 22 Mehefin
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

34. Cynllun Gwelliannau Amgylchedd

Er gwybodaeth yn unig
Penderfynwyd
Nodi ein siom inni beidio a derbyn copi yn uniongyrchol gan Cyngor Sir, gan lythyru y prif weithredwr yn da tgan bod Cyngor Tref yn dymuno derbyn copi o bob dogfen ymgynghorol sydd ynghlwm a'r dre a cynrychiolydd

35. Llythyr parthed Capel Engedi

Penderfynwyd
Diolch am y llythyr, gan nodi bod y capel wedi cael ei werthu. Ond ceisio cysylltu a'r prynwr i geisio gael y plac yma yn y Cyngor cyn iddi gael ei chwalu(a chadw nes bydd canolfan treftadaeth yn agored yma)

36. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Bwletin -
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

37.Amgueddfa RWF –

Adroddiad byr gan y Maer
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

38.**Adroddiad gan y Cynulliad**

Deddfwriaeth – Iaith Gymraeg
Cyng H Edwards yn nodi iddo fynychu cyfarfod yn yr Eisteddfod ac wedi llythyru Arglwydd Dafydd Elis Thomas am y ffaith fod y Cynulliad yn edrych i dorri ar gyfieithu

Penderfynwyd

Llythyr i'r Cynulliad i nodi ein pryderon a gofyn am ei polisi iaith

39. **Unllais**

Gweithgor – 'Constitutional Law'

Penderfynwyd

Wedi cael trafodaeth o dan eitem 18

40. Cwestiynau

Be sydd yn digwydd am y cloc?
Disgwyl am "quote"

41. Cynhadledd Safonau Cymru

Gwahoddiad i'r clerc fynychu cynhadledd yn Gaerdydd

Penderfynwyd

Gofyn i'r clerc fynychu a talu costau priodol

Gorffennodd y cyfarfod am 8.10

Arwyddwyd..... Dyddiad.....